

## Rhyw – gwas neu feistr?

*“Ond rwyf fi’n dweud wrthych fod pob un sy’n edrych mewn blys ar wraig, eisoes wedi cyflawni godineb â hi yn ei galon.” (adn. 28)*

### Beth am ddarlhen Mathew 5:21–30 ac yna myfyrio

Does dim amheuaeth mai un o’r brwydrau mwyaf sydd raid mynd i’r afael â hi er mwyn ymgysylltu at berffeithrwydd moesol yw y frwydr gyda golwg ar ryw. Yn ôl Billy Graham, ni chyfyd brwydr fwy mewn bywyd na brwydr rhyw. Felly, sut mae paratoi ar gyfer y frwydr yma?

Yn gyntaf, mae’n rhaid cydnabod fod chwant rhywiol yn rhan o’r natur ddynol. Mae ymddwyn fel petasai’r rhan hon o’r natur ddim yn bodoli yn ei gyrru yn ddyfnach i mewn i’n hisymwybod. Yn yr isymwybod, mae yna bob math o nwydau cymhleth sydd yn eu tro yn esgor ar bob math o anawsterau. Mae i bob person normal chwant rhywiol, rhai yn fwy nag eraill. Does dim cywilydd yn perthyn i hyn – mae’n rhan o’n cyfansoddiad. Nid y cwestiwn yw “A oes chwant rhywiol yn perthyn i ni, ond a yw chwant rhywiol wedi ein meddiannu ni?” Fel gwas, mae’n gyrru ein personoliaeth; fel meistr, mae’n arwain at chwalfa. Ysgrifennodd gŵr ifanc oedd yn Gristion ataf unwaith: “Rwy’n mynd gyda gwagedd eraill ond nid wyf yn ystyried fy mod yn gwneud dim o’i le.” Pa mor ddall yw ein natur, tybed.

Fel Cristnogion, yr ydym yn perthyn i feistr oedd, fel y gwelwn o’r testun heddiw, yn priodoli euogrwydd, nid yn unig i’r weithred gorfforol, ond hyd yn oed i’r bwriad meddyliol. Rhaid inni ofyn i Dduw yn barhaus i gadw ein meddyliau yn bur. Nid oes galw i fod fel Awstin Sant a oedd yn ei flynyddoedd cynnar fel Cristion, ac yntau yn cael anawsterau â chwant rhywiol, yn gweddio: “Arglwydd, gwna fi yn bur ond nid rŵan.” Os nad ydych wedi gwneud hyn o’r blaen, yna dyma’r amser i ildio eich chwant rhywiol i’r Arglwydd. Dyma’r awr. Yn ôl un hanesydd, mae’r gyfraith foesol wedi ei hysgrifennu i mewn i bopeth. Mae’r rhai sydd yn ufuddhau i’r gyfraith foesol yn gwybod am y canlyniadau, ac mae’r rhai sydd yn ei thorri yn gwybod am ganlyniadau hynny. Gwna benderfyniad i fod yn foesol ym myd rhyw fel ymhob rhan arall o’th fywyd.

### Beth am fynd ymlaen i ddarlhen:

Gen. 39:1–23; Diar. 6:20–32

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fu i Joseff ymwrthod â themtasiwn?
2. Pam all chwant rhywiol dilyffethair falurio’n bywyd ysbrydol?

### Gweddï

Dad, cymer fi gerfydd fy llaw er mwyn diogelu na’m harweinir ar gyfeiliorn gan fy chwant rhywiol. Rwy’n gwybod o fynd ar gyfeiliorn yn y fan hon, byddaf yn fuan yn darganfod fy hun mewn rhwydau o bob math. Rwy’n dymuno bod yn bur ymhob peth. Cynorthwya di fi i fod felly. Yn enw Iesu. Amen.